Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? [Darllenwch ef yn eich porwr.]

Y Comisiwn Etholiadol

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 286 (Cymru) - 25 Tachwedd 2020**

## Etholiadau Mai 2021: arolwg rheoli gwybodaeth

Fel rhan o'n dull monitro cyflawni etholiadau mis Mai 2021, byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth o ran sut byddwch yn rheoli'r etholiadau yn eich ardal. Bydd y cwestiynau yn debyg i'r rheiny a gynhwyswyd mewn arolygon rheoli gwybodaeth blaenorol, a byddant yn cwmpasu themâu allweddol, gan gynnwys: dosbarthu cardiau pleidleisio a phleidleisiau post; nifer y gorsafoedd pleidleisio a'u staff; a lleoliadau ac amseroedd sesiynau dilysu a chyfrif.

Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i gael darlun clir o'r trefniadau sydd wedi eu rhoi ar waith ledled Prydain Fawr ar gyfer cyflawni'r etholiadau, a byddwn hefyd yn darparu ystadegau allweddol y gellir eu defnyddio gyda'r cyfryngau ac ymholwyr eraill, yn rhagweithiol ac yn adweithiol.

Byddwch yn derbyn dolen i'r arolwg trwy e-bost ar 14 Rhagfyr 2020, a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion fydd 15 Ionawr 2021. Gwerthfawrogwn na fyddwch o bosib yn gallu darparu'r holl wybodaeth rydym yn gofyn amdani erbyn y dyddiad hwn, am y gallwch ddal i fod fod wrthi'n gweithio at gadarnhau'r trefniadau ar gyfer yr etholiadau yn eich ardal, ond byddem yn ddiolchgar am eich cymorth wrth ddarparu ymateb mor llawn â phosib erbyn y pryd hwnnw.

## Canfasiad 2020: adroddiad ar gynnydd

Heddiw (dydd Mercher 25 Tachwedd) rydym wedi cyhoeddi [adroddiad ar gynnydd canfasiad 2020]. Mae'r adroddiad yn amlygu prif ganfyddiadau ein hymgysylltu ag EROs rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020; mae hefyd yn tynnu sylw at rai enghreifftiau o arferion da a ddaeth i'r amlwg.

Mae'r adroddiad yn amlygu bod y canfasiad yn mynd rhagddo'n llwyddiannus, hyd yn oed yng nghyd-destun yr heriau a wynebir oherwydd y pandemig coronafeirws.

Mae'r broses paru data wedi cyflawni canlyniadau a oedd yn unol, yn fras, â'n disgwyliadau, gyda 73% o eiddo ledled Prydain Fawr yn

## Cynnwys


**Etholiadau Mai 2021: arolwg rheoli gwybodaeth**

Gwybodaeth am y wybodaeth rheoli y byddwn yn gofyn i chi ei darparu.

**Canfasiad 2020: adroddiad ar gynnydd**

Gwybodaeth am adroddiad y Comisiwn a gyhoeddwyd ddydd Mercher 25 Tachwedd, a dolen iddo.


**Rydym yn cyhoeddi bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [fan hyn]. Gallwch hefyd [danysgrifio i'n *Bwletinau Gweinyddu Etholiadol*].**

**[Rhowch wybod i ni] am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r**

perthyn i Lwybr 1. Mae amrywiadau sylweddol, fodd bynnag, ar draws ardaloedd awdurdodau lleol: bu rhwng 50% a 96% o eiddo yn yn perthyn i Lwybr 1.

Yn ychwanegol at alluogi EROs i ganolbwyntio eu hadnoddau ar dargedu'r eiddo hynny lle mae angen newidiadau, mae'r canfasiad diwygiedig hefyd wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i EROs o ran y sianeli a ddefnyddiant i gyfathrebu ag etholwyr. Mae'r adroddiad yn nodi bod y gallu hwn i ddefnyddio galwadau ffôn ac e-byst wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth helpu EROs i gyflawni'r canfasiad yng nghyd-destun y pandemig coronafeirws, gan leihau'r nifer o ymweliadau personol y mae eu hangen.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag EROs a'u timau trwy gydol gweddill y canfasiad a thrwy gydol y cyfnod hyd at etholiadau mis Mai 2021, a byddwn yn adrodd ar ganfyddiadau ein hymgysylltu a'n dadansoddiad o'r data a'r wybodaeth a gasglwyd, ar ôl cyhoeddi'r cofrestrau diwygiedig.

**Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio** unrhyw bryd.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**

© Y Comisiwn Etholiadol 2020